

# Cylchlythyr

## Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol Cymru

RHIFYN 3

IONAWR 2020

Mae Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS) yn blanhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau a gyflwynwyd i rannau o'r byd ble na fyddent i'w cael yn naturiol. Gallant ymledu gan achosi difrod i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw. INNS yw'r ail fygythiad mwyaf ar ôl darnio a cholli cynefinoedd.

Amcangyfrifwyd bod INNS yn costio o leiaf £1.8 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, maent yn effeithio'n bennaf ar y sectorau ffermio a garddwriaethol ond gallant effeithio hefyd ar drafnidiaeth, adeiladu, hamdden, dyframaethu a chyfleustodau.

Mae Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) yn ffynhonnell arbenigol ar INNS yng Nghymru. Sefydlwyd y grŵp yn 2008 ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol a sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.

Dysgwch fwy am y grŵp ar ein gwefan benodedig ar [wefan PBC](#).

PYNCIAU LLOSG

## Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol 2019



Rhai rhywogaethau sydd o bryder i'r Undeb. I'r dde, o'r brig: Jac y Neidiwr, Hwyaden Goch, Gwiwer Lwyd, Dail-ceiniog Arnofiwl (trwy garedigrwydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Llyfrothen Uwchsafn (trwy garedigrwydd Matt Brazier, Asiantaeth yr Amgylchedd), Briallu'r Dŵr. Trwy garedigrwydd GBNNSS oni nodir yn wahanol

Daeth [Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol \(Gorfodi a Thwyddedu\) 2019](#) i rym ar 1 Rhagfyr 2019. Mae'n cyflwyno cosbau, troseddau a darpariaethau gorfodi ar gyfer cydymffurfio â gofynion [Rheoliad yr UE \(1143/2014\)](#) ar atal a rheoli'r arfer o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynol. Mae'r darpariaethau'n berthnasol i 66 o rywogaethau sy'n '[rhywogaethau o bryder i'r Undeb](#)'.

Dan y Gorchymyn, gall CNC a'r heddlu osod sancsiynau troseddol yng Nghymru yn ymwneud â throedd dan y Gorchymyn. Fel y rheoleiddiwr, gall CNC osod sancsiynau sifil hefyd.

Mae modd rhoi trwyddedau dan y Gorchymyn er mwyn mynd i'r afael â gweithgareddau a gaiff eu gwahardd dan Reoliad yr UE. Dim ond trwy gydymffurfio ag amodau trwydded y gellir mynd i'r afael â'r gweithgareddau hyn. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff trwyddedu yng Nghymru. Natural England fydd yn rhoi trwyddedau yn Lloegr.

Cyn bo hir bydd y Cwestiynau Cyffredin diweddaraf ynghylch Rheoliad yr UE a'r Gorchymyn yn cael eu cyhoeddi, a bydd doler ar gael yn y cylchlythyr nesaf. Os ydych o'r farn y gallech fod angen trwydded ar gyfer mynd i'r afael â gweithgareddau cyfyngedig, edrychwch ar we-dudalen [Trwyddedu Rhywogaethau](#) CNC i gael rhagor o wybodaeth.

## Seminar y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

Cynhaliwyd seminar ddiweddaraf y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghaerdydd ar 20-21 Ionawr 2020, gyda chynrychiolwyr y llywodraeth a chynrychiolwyr asiantaethau'n mynychu o'r DU, Gweriniaeth Iwerddon a Thiriogaethau Dibynol ar y Goron.

Cafodd gweithdai eu cynnal ar Lwybrau, Cynllunio wrth Gefn, Ymateb Cyflym a Pholisi Rhyngwladol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael drwy <https://www.britishtishcouncil.org/areas-work/environment/invasive-non-native-species> wrth i allbynnau a mentrau ddatblygu.

## Blwyddyn Ryngwladol Planhigion 2020 y Cenhedloedd Unedig

Mae Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi datgan bod 2020 yn Flwyddyn Ryngwladol Planhigion er mwyn codi ymwybyddiaeth drwy'r byd ynghylch sut y gall diogelu iechyd planhigion helpu i roi stop ar newyn, lleihau tlodi, diogelu'r amgylchedd a rhoi hwb i ddatblygu economaidd.

Yn ystod y flwyddyn y nod yw codi ymwybyddiaeth ynghylch diogelu planhigion a gwarchod bywyd yma yng Nghymru. Os oes gennych ddiwyddiadau neu weithgareddau wedi'u trefnu, a allai gyfrannu at y neges bwysig hon, cysylltwch â [plant.health@llyw.cymru](mailto:plant.health@llyw.cymru). Hefyd, ceir cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth, lle gallwch gyfleu eich syniadau eich hun ynghylch planhigion iach neu afiach. Gall fod yn ddiddorol iawn o safbwynt rhywogaethau estron goresgynol! <http://www.fao.org/plant-health-2020/photo-contest/enter-the-contest/en/>.

## Deddfwriaeth a Pholisi

Ar 25 Hydref 2019, cyhoeddwyd adroddiad **Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol y DU** ar ei ymchwiliad i effeithiau rhywogaethau estron goresgynol a'r ffyrdd o'u rheoli (gweler: <https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/environmental-audit-committee/inquiries/parliament-2017/invasive-species-17-19/>).

Yn ôl yr adroddiad, mae rhywogaethau estron goresgynol ymhlith y pum bygythiad mwyaf sy'n wynebu'r amgylchedd naturiol, a chyflwynwyd yr argymhellion canlynol:

- Dylid cynyddu'n sylweddol yr arian a gaiff yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron a'r gwaith a wneir lleded Prydain Fawr i £3 miliwn y flwyddyn o leiaf.
- Dylai Llywodraeth y DU ddiweddarau a gwella'i hymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ynghylch bioddiogelwch a buddsoddi llawer mwy o adnoddau yn y gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Dylid cynnwys pathogenau goresgynol yn strategaeth nesaf Prydain Fawr ar Rywogaethau Estron, gan fod y dulliau atal a rheoli yn bur debyg.
- Dylai Tiriogaethau Tramor gael adnoddau er mwyn sicrhau bod gan bob Tiriogaeth Dramor ddeddfwriaeth bioddiogelwch ddiweddar a phwerau gorfodi digonol erbyn diwedd 2020.
- Dylai Llywodraeth y DU ystyried rhoi system ar waith i gynnig arian cyfatebol i'r arian a roddir gan bartneriaid preifat ar gyfer prosiectau dileu ar raddfa fawr lle gellir sicrhau'r budd mwyaf i fioamrywiaeth.

## Y NEWYDDION DIWEDDARAF

### Ysgrifenyddiaeth newydd Grŵp INNS PBC

Pleser yw croesawu Michaela Scrivin, sydd wedi camu i esgidiau Holly York. Mae Michaela yn gweithio yn Nolgellau, Gwynedd, a gallwch gysylltu â hi [michaela.scrivin@cyfoethnaturiolcymru@gov.uk](mailto:michaela.scrivin@cyfoethnaturiolcymru@gov.uk)




### Y Gragen Gylchog Asiaidd Wastad - *Corbicula fluminea*

Wrth adolygu Bae Caerdydd, daeth staff Amgueddfa Cymru o hyd i Gragen Gylchog Asiaidd Wastad. Mae mesurau bioddiogelwch eisoes ar waith.

### Racŵn-gŵn

Mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a GBNNSS yn parhau i weithio ar y cyd i geisio ail-ddal dau racŵn-gi a lwyddodd i ddianc yn Sir Gaerfyrddin fis Awst diwethaf. Os credwch eich bod wedi'u gweld (yn fyw neu'n farw), cysylltwch â llinell ffôn argyfwng 24 awr CNC cyn gynted â phosibl ar: 0300 065 3000.




Racŵn-gi. Trwy garedigrwyd: istock.com/sduben

## PROSIECTAU PARTNERIAID: YMDDIRIEDOLAETH ADAR Y GWLYPTIR (WWT)

### Treial rheoli biolegol *Crassula yn Llanelli*

**Mae gwiddonyn microsgopig sy'n sugno sudd wedi'i gyflwyno er mwyn ceisio rheoli planhigyn gwlyptir goresgynol o Awstralia sy'n mygu cyrff dŵr ac yn trechdisodli ein planhigion brodorol – cam na welwyd mo'i debyg erioed o'r blaen yng Nghymru.**



Gwiddonyn *Aculus crassulae*. Trwy garedigrwydd: Radmila Petanović

Planhigyn goresgynol yw *Crassula helmsii* – a elwir hefyd yn Wernydd Awstralia. Cafodd ei gyflwyno o Seland Newydd yn nechrau'r 1900au fel rhan o'r diwydiant pyllau addurnol. Mae *Crassula* yn dwyn lle. Mae'n ffurfio matiau sy'n trechdisodli popeth arall, gan fychu cyrff dŵr a lleihau bioamrywiaeth. Nid yw'n gwywo yn y gaeaf, mae'n mygu planhigion brodorol, a gall leihau faint o ocsigen sydd yn y dŵr – newyddion drwg i greaduriaid gwlyptir o bob math.

Ar ôl i staff a gwirfoddolwyr ymladd yn ddewr am flynyddoedd i atal lledaeniad a thwf y planhigyn estron toreithiog yma, mae Canolfan Gwlyptiroedd Llanelli Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir wedi cael cymorth gan Dŵr Cymru Welsh Water a noddwyr hael eraill i fod y safle cyntaf yng Nghymru i gynnal treial gan y Ganolfan Amaeth a Biowyddoniaeth Rhyngwladol (CABI), lle defnyddir cyfrwng rheoli biolegol newydd sbon sy'n bwydo'n unswydd ar Wernydd Awstralia (*Crassula helmsii*).

Yn ôl Gwyddonydd Prosiect CABI, Sonal Varia: "Wrth gael eu bwyta gan y gwiddonyn *Aculus crassulae*, mae'r planhigion *Crassula* yn datblygu ardyfiant ar yr egin, a elwir yn chwydd blagur mawr. Mae hyn yn gostwng ffitrwydd y planhigyn yn arw trwy leihau ei dwf.

Dros amser, y gobaith yw y bydd cyflwyno'r gwiddon yma'n cyfrannu at reoli'r chwynnyn hwn yn yr hirdymor trwy leihau ei allu i gystadlu â phlanhigion eraill, a thrwy hynny ei gwneud

yn bosibl i blanhigion brodorol llai cystadleuol dyfu yn y manau lle mae *Crassula* yn drech ar hyn o bryd."

Medd Dr Brian Briggs, Rheolwr Gwarchodfa Canolfan Gwlyptiroedd Llanelli Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir: "Rydym yn llawn cyffro o gael bod yn rhan o'r treial pwysig hwn. Mae Gwernydd Awstralia yn blanhigyn hynod oresgynol sy'n dwyn llawer iawn o'n hamser a'n hadnoddau, ac rydym wedi bod yn gobeithio cael ffordd effeithiol o'i reoli ers blynnyddoedd. Byddwn yn cadw llygad barcud ar yr ardaloedd rhyddhau er mwyn chwilio am arwyddion fod y gwiddonyn yn dechrau gwneud ei waith."

Cafodd y gwiddon eu rhyddhau yn Llanelli ar 20 Mehefin 2019 ac mae yna arwyddion eu bod yn cael effaith. Trwy gyfrwng gwaith monitro staff CABI ac Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, cawn weld ymhenn amser ai'r sugnwr sudd pitw hwn yw'r ateb.

Os bydd y prosiect yn llwyddiant, yn ôl pob tebyg bydd y gwiddonyn yn cael ei gyflwyno ar safleoedd di-rif eraill o amgylch y DU, er mwyn lleihau grym y planhigyn goresgynol a'i atal rhag mygu ffosydd a phyllau yn y dyfodol.



Sonal Varia, gwyddonydd CABI, yn dangos i Peter Phillips, Warden Gwarchodfa Llanelli Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, ardyfiant coch a gynhyrchir gan *Crassula helmsii* mewn ymateb i'r gwiddonyn *Aculus Crassulae*. Trwy garedigrwydd: Brian Briggs, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir

## PROSIECTAU YMCHWIL

### Prosiect Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (BEERN)

#### Neidr Esgwlapaidd ym Mae Colwyn

The Mae Rhaglen BEERN wedi darparu cyllid dan gynllun Ysgoloriaeth Ymchwil KESS ar gyfer cynnal asesiad effaith integredig rhagataliol o neidr a gyflwynwyd yng Ngogledd Cymru. Rhywogaeth sydd wedi'i chyflwyno yw'r neidr Esgwlapaidd (*Zamenis longissimus*). Sefydlodd yn/o amgylch tiroedd y Sw Fynydd Gymreig ym Mae Colwyn, ardal oddeutu 1.5km<sup>2</sup> o faint. Mae gan y neidr Esgwlapaidd ecoleg fforio a chynefin gwahanol i rywogaethau brodorol, ac fe allai fod yn risg posibl i fioamrywiaeth y DU. Felly, mae monitro'r neidr hon yng Ngogledd Cymru a llunio strategaethau rheoli ar ei chyfer yn rhan bwysig o ddiogelu nodweddion ecosystemau a bioamrywiaeth Gogledd Cymru a'r DU yn ehangach.



Neidr Esgwlapaidd. Trwy garedigrwydd: Tom Major

Nod y prosiect yw datblygu model y gellir ei roi ar waith yn eang ar gyfer asesu rhywogaethau goresgynol yn gynnar, a chynllunio sut i'w rheoli – rhywbeth a fydd o fudd i ymdrechion yn y DU o safbwynt rheoli rhywogaethau goresgynol. Trwy fonitro i ble yr aiff y nadroedd, ynghyd â monitro eu cynefinoedd, bydd data am eu hymddygiad a'u cynefin yn bwydo i gynllun gwaredu integredig ar gyfer y rhywogaeth ac yn cyfrannu at atal y rhywogaeth rhag ymledu ei thiriogaeth a goresgyn ymhellach.

Rhoddyd y prosiect ar waith ym mis Hydref 2017 a bydd yn parhau tan fis Hydref 2021. Bydd trosglwyddyddion radio'n cael eu mewnbllannu yn y nadroedd rhwng Ebrill 2020 a Medi 2020, ac unwaith eto rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021.

#### Canfyddiad y Cyhoedd o Rywogaethau Estron Goresgynol yn Eryri

Ymhellach, mae Rhaglen BEERN wedi darparu cyllid ar gyfer astudiaeth israddedig i asesu canfyddiad pobl o Rywogaethau Estron Goresgynol yn Eryri. Canolbwyntir ar *Rhododendron ponticum* (Rp) mewn coetiroedd brodorol. Trwy gyflwyno syniadau i drigolion, tîrfeddianwyr ac eraill yn y Parc Cenedlaethol, n ymwneud â rheoli tir a rhywogaethau o ddiddordeb, bydd modd ymgysylltu'n gadarnhaol a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gallu ymwreiddio bioamrywiaeth ym mhob rhan o'r broses benderfynu, ar bob lefel. Trwy gael pobl i gydnabod yn annibynnol yr effeithiau negyddol a gaiff rhywogaethau estron goresgynol ar gynefinoedd brodorol yn y Parc Cenedlaethol, bydd modd cymryd cam yn y cyfeiriad iawn tuag at dacio'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd. Bydd rhagor o fanylion, yn cynnwys dolen yn arwain at yr arolwg, i'w cael yn rhifyn Gorffennaf cylchlythyr Rhywogaethau Estron Goresgynol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.



Trwy garedigrwydd: GBNISS, gyda chydabyddiaeth i CNC.

### Cymru Fyw

Prosiect ymchwil yw **Cymru Fyw** lle defnyddir delweddau lloeren uwchben Cymru i ddatgelu cyflwr a dynameg tirwedd Cymru, mor agos â phosibl at amser real, yn hanesyddol ac i'r dyfodol (dros yr hirdymor), trwy integreiddio data arsylwi'r ddaear, mesuriadau tir ategol a modelau prosesau.

Mae Cymru Fyw yn mapio coedwigoedd, gorchudd canopi, cnydau, a chynefinoedd lled-naturiol yn flynyddol. Mae gan dechnolegau o bell ran i'w chwarae wrth fapio dosbarthiad rhywogaethau estron goresgynol, ac un o nodau rhaglen Cymru Fyw yw canfod newidiadau yng nghwmpas a dosbarthiad rhywogaethau goresgynol yng Nghymru. Mae gan y rhaglen ddiddordeb nid yn unig mewn lleoliadau lle mae rhywogaethau goresgynol yn doreithiog, ond hefyd yn y lleoliadau lle mae rhywogaethau goresgynol yn dechrau ymsefydlu.

The Mae'r ap symudol EarthTrack wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn casglu mesuriadau tir ategol. Bydd modd i'r ap gasglu gwybodaeth am laswelltiroedd blodeuog, cynefinoedd sy'n doreithiog o bryfed peillio, ymylon ffyrdd blodeuog, gwenyn, glöynnod byw, cynefinoedd â'r a rhywogaethau goresgynol. Ewch i <https://earthtrack.aber.ac.uk/index.html> am ragor o wybodaeth.

## DIGWYDDIADAU

### Hyfforddiant a Digwyddiadau

#### Cregyn Deuglawr America ar Lannau Prydain

Mae Amgueddfa Cymru yn cynnal sgysiaid a gweithdai'n ymwneud â chofnodi a chasglu rhywogaethau estron ar arfordir Cymru. Caiff y sesiynau hyn eu hanelu at staff Parciau Cenedlaethol, gwirfoddolwyr, staff CNC ac eraill sy'n gweithio yn y maes. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn mynychu sesiwn yn y dyfodol, cysylltwch ag Anna Holmes [Anna.Holmes@museumwales.ac.uk](mailto:Anna.Holmes@museumwales.ac.uk).

#### 19 Chwefror 2020

##### Hyfforddiant Bioddiogelwch ar gyfer Defnyddwyr Dŵr Croyw

Ar 19 Chwefror bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad hyfforddi bioddiogelwch rhad ac am ddim ar gyfer defnyddwyr dŵr croyw. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gemma Rose ar 07534487704 neu [gemma.rose@northwaleswildlifetrust.org.uk](mailto:gemma.rose@northwaleswildlifetrust.org.uk).

#### 11 Mawrth 2020

##### Dianc i'r Ardd

Ar 11 Mawrth, 7pm-9pm, bydd Grŵp Garddio Organig Abertawe yn cynnal sesiwn fer i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynol. *Canolfan yr Amgylchedd, Stryd y Pier, Abertawe, SA1 1RY.*

#### 20-25 Ebrill 2020

##### Wythnos Genedlaethol Iechyd Planhigion 2020

Bydd yr Wythnos Iechyd Planhigion gyntaf yn cael ei chynnal ar 20-25 Ebrill 2020. Fe'i cynhelir yn flynyddol wedi hynny.

#### 18-22 Mai 2020

##### Wythnos Rhywogaethau Goresgynol Prydain Fawr 2020

Bydd yr Wythnos Rhywogaethau Goresgynol yn cael ei chynnal ar 18-22 Mai 2020 – mae lluo o weithgareddau ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth wedi'u trefnu. Os oes gennych fwy o awgrymiadau neu ddigwyddiadau yr hoffech eu hyrwyddo, neu os hoffech gael y diweddaraf gan GBNNSS, e-bostiwch [nss@apha.gov.uk](mailto:nss@apha.gov.uk) neu ewch i <http://www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=132> i gael rhagor o wybodaeth.

#### 19 Mai 2020

##### Sesiwn Hyfforddi Ymwybyddiaeth o Rywogaethau Estron Goresgynol

Ar 19 Mai, 10am-3pm, bydd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cynnal sesiwn yn sôn am y prif faterion sy'n gysylltiedig â rhywogaethau estron goresgynol, yn cynnwys sut i'w hadnabod, dulliau o'u rheoli, deddfwriaeth, eu cofnodi, ac ymgyrchoedd. Byddai peth gwybodaeth flaenorol am ecoleg yn ddefnyddiol. £50 y pen. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [training-day/](https://gowerwalkingfestival.uk/cy/blwyddyn-darganfod/) <https://garddfotaneg.cymru/visit/whats-on/event/invasive-non-native-species-training-day/>.

#### 2 Mehefin 2020

##### Rhywogaethau Estron yn Abertawe

Fel rhan o Wyl Gerdded Gŵyr, bydd 'tro dysgu' yn cael ei gynnal ar 2 Mehefin, 10am-1pm. Dewch draw am dro i weld faint o rywogaethau estron goresgynol, egsotig, problemus y gallwch eu gweld yn tyfu ym Mharc Singleton Abertawe a'r Ardd Fotaneg. Cyfarfod ym Mharc Singleton wrth fynedfa Heol Gŵyr er mwyn cychwyn yn brydlon am 10am! I gael rhagor o wybodaeth, ewch i <https://gowerwalkingfestival.uk/cy/blwyddyn-darganfod/>.

## CONTACT US



[www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynol](http://www.biodiversitywales.org.uk/Gr-p-Rhywogaethau-Estron-Goresgynol)



@WBP\_wildlife



[walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)



Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, d/o Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP